



**Cais gan Mona Offshore Wind Limited ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona
Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ2)
Cyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 2024**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ2.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad B i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 7 Mehefin 2024. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisiau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Barti â Buddiant (IP) ac unigolyn arall y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif 2 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ2) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar ansawdd aer ac allyriadau fel Q2.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos: cysylltwch â monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk a nodwch Fferm Wynt Alltraeth Mona yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024.

Talfyriadau a ddefnyddir:

AEoI	Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd	NATS	Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol
AIL	Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin	NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	CNC (C)	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori)
AyM	Awel y Môr	CNC (TTM)	Cyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Trwyddedu Morol)
BoR	Llyfr Cyfeirio	NWWT	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
CA	Caffael Gorfodol	NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
CAH1	Gwrandawriad Caffael Gorfodol 1	OCoCP	Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol
CCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	OCMS	Datganiad Dull Adeiladu Amlinellol
CEA	Asesiad o Effeithiau Cronnol	ODMP	Cynllun Rheoli Llwych Amlinellol
CO₂	Carbon Deuocsid	OSEP	Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol
CRDV	Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	OWF	Fferm Wynt Alltraeth
CSIP	Manyleb Cebiau a Chynllun Gosod	ONVMP	Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Amlinellol
dDCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	OLEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol
DCC	Cyngor Sir Ddinbych	OSMP	Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol
DCLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol	PA2008	Deddf Cynllunio 2008
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu	PPW	Polisi Cynllunio Cymru
DML	Trwydded Forol Dybiedig	PRoW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	PSR	Radar Prif Oruchwyliaeth
EM	Memorandwm Esboniadol	R	Gofyniad
EMF	Meysydd Electromagnetig	RR	Sylw Perthnasol
EMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
ENP	Parc Cenedlaethol Eryri	ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
ES	Datganiad Amgylcheddol	Sch	Atodlen
ExA	Awdurdod Archwilio	SGLP	Cynlluniau Tir Categori Arbennig
		SLVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol



FCA	Asesiad Canlyniadau Llifogydd	SMZ	Parth Lliniaru Cregyn Bylchog
GCN	Madfallod Dŵr Cribog	SoCG	Datganiad(au) Tir Cyffredin
GW	Gigawatiau	SoS	Ysgrifennydd Gwladol
HGV	Cerbyd Nwyddau Trwm	SoR	Datganiad o'r Rhesymau
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
IoA	Ynys Môn	tCO_{2e}	Tunelli CO ₂ cyfwerth
IoACC	Cyngor Sir Ynys Môn	TP	Meddiant Dros Dro
IoANL	Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn	UXO	Ordnans Heb Ffrwydro
IoMG	Llywodraeth Ynys Manaw	VP	Golygfan
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur	WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
km	cilometrau	WR	Sylw Ysgrifenedig
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol		
LSE	Effaith Arwyddocaol Debygol		
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol		
LVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol		
m	metrau		
MCA	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau		
MDS	Senario Dylunio Mwyaf		
MHWS	Penllanw Cymedrig y Gorllanw		
MMP	Cynllun Rheoli Deunyddiau		
MNEF	Fforwm Ymgysylltu Mordwyo		

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol:

[EN010137-000519-Mona Offshore Wind farm - Bilingual Examination Library.pdf](#)

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarau wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.



Mynegai

2.0	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol.....	5
2.1	Ansawdd Aer ac Iechyd Dynol	5
2.2	Adeiladu	7
2.3	Buddiannau Amddiffyn a Hedfanaeth Sifil a Milwrol.....	7
2.4	Y Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	8
2.5	Pysgodfeydd Masnachol, Pysgod a Physgod Cregyn	9
2.6	Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP).....	12
2.7	Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (dDCO)	19
2.8	Perygl Llifogydd a'r Amgylchedd Dŵr.....	19
2.9	Daeareg a Chyflwr y Tir.....	22
2.10	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	22
2.11	Yr Amgylchedd Hanesyddol.....	22
2.12	Defnydd Tir.....	22
2.13	Tirwedd a Gweledol a Dylunio Da.....	24
2.14	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Newid Arfordirol	24
2.15	Mordwyo a Morgludiant	25
2.16	Sŵn a Dirgryniad	26
2.17	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol Alltraeth	28
2.18	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir	32
2.19	Seilwaith a Gweithgareddau Alltraeth Eraill	34
2.20	Y Morlun ac Adnoddau Gweledol	36
2.21	Materion Economaidd-Gymdeithasol	36
2.22	Traffig a Thrafnidiaeth	37

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
2.0 Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol		
Q2.0.1	Mrs H M Parry G W Parry Robert Parry Elizabeth W Wade	Mynediad at Lyfrgell yr Archwiliad A ydych yn cael unrhyw broblemau presennol nad ydynt wedi'u datrys ynglŷn â chael at ddogfennau yn Llyfrgell yr Archwiliad?
Q2.0.2	Yr Ymgeisydd	Prosiect storio batri cyfyngedig IGP Solar 21 Mae'r ExA yn nodi mai ychydig iawn o wybodaeth am brosiect batris storio IGP Solar 21 Limited sydd ar gael yn gyhoeddus. Oherwydd disgwylir i'r cais gael ei gyflwyno yn yr Haf/Hydref 2025, a yw'n debygol y bydd y cyfnodau adeiladu ar gyfer y prosiect batris storio a'r Datblygiad Arfaethedig yn gorgyffwrdd? Os felly, a yw'n iawn na ddylid asesu effeithiau cronol posibl o gwbl, hyd yn oed gan ddefnyddio amcangyfrifon?
Q2.0.3	Yr Ymgeisydd Llywodraeth Cymru	Datganiad Tir Cyffredin Cynhyrchu Datganiad Tir Cyffredin ar bob mater sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru. I'w gyflwyno erbyn Dyddiad Cau 5, gyda'r fersiwn derfynol erbyn Dyddiad Cau 7. Ychwanegu Llywodraeth Cymru at y Datganiad Cyffredindeb.
Q2.0.4	Pob parti	Crynodebau o gyflwyniadau ysgrifenedig dros 1500 o eiriau Byddai'r Awdurdod Archwilio yn atgoffa'r partion y dylai unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig sy'n fwy na 1500 o eiriau hefyd gynnwys crynodeb na ddylai fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Dylai'r crynodeb nodi ffeithiau allweddol y cyflwyniad ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn gynrychioliadol o'r cyflwyniad a wnaed.
2.1 Ansawdd Aer ac Iechyd Dynol		
Q2.1.1	Yr Ymgeisydd	Cydymffurfio ag NPS EN-5 Fel sy'n ofynnol gan Adran 2.9.55 y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5), a allwch chi gyfeirio at eich tystiolaeth o gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP) a'r ffactorau a nodir yn Adran 2.10.11 NPS EN-5?
Q2.1.2	Yr Ymgeisydd	Risg Wirioneddol o Feysydd Electromagnetig (EMF)

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Yn Adran 4.8.8.7 yr ES Cyfrol 4, Pennod 4 [APP-078], rydych yn dweud y byddwch yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau dylunio perthnasol y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio (ICNIRP) a chod ymarfer gwirfoddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yr ystyrir eu bod yn ddigonol i osgoi risg wirioneddol o EMF. Yn Nhabl 4.9 o hynny, rydych yn ychwanegu bod terfynau canllaw perthnasol o ran amlygiad y cyhoedd i EMF wedi'u nodi yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) ac y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â nhw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy fyddai'n gyfrifol am fonitro cydymffurfio â'r terfynau canllaw? • A fyddai hyn yn cael ei wneud yn rhagweithiol ar sail flynyddol, er enghraifft? • Sut byddai lleoliadau profi'n cael eu dewis? • Gyda phwy y gallai preswylwyr lleol a/neu dirfeddianwyr gysylltu i fynegi pryderon ynglŷn â chydymffurfio? <p>Pa ddulliau gorfodi a ddarperir pe ganfyddir bod y Datblygiad Arfaethedig, yn unigol neu ar y cyd â ffynonellau EMS eraill, yn torri'r terfynau canllaw?</p>
Q2.1.3	Yr Ymgeisydd	<p>Effaith bosibl golau artiffisial ar amwynder preswyl</p> <p>Mae'r ExA yn ymwybodol o'ch Tabl 6.19 yn yr ES Cyfrol 3, Pennod 3 [APP-069] a'ch Nodyn Egluro Goleuadau [REP4-043]. Fodd bynnag, mae Adran 5.7.5 y Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) yn dweud y dylai'r Ymgeisydd, ymhlith pethau eraill, asesu'r potensial y gallai allyriadau golau artiffisial gael effaith niweidiol ar amwynder preswyl yn rhan o'r ES. A allwch chi gyfeirio at ble y cydymffurfiwyd â'r elfen hon o'r polisi mewn perthynas â chamau adeiladu a gweithredol y Datblygiad Arfaethedig?</p>
Q2.1.4	Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach	<p>Michael a Sally Leach</p> <p>A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach ([REP4-077], REP3-113.1)?</p>
Q2.1.5	APau IPau	<p>Llwch</p> <p>Yn Ymateb y Cynghorau i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf (ExQ1) [REP3-078] dywedodd CCBC ei fod yn fodlon â darpariaeth y Cynllun Rheoli Llwch Amlinellol [APP-214] fel y'i sicrhawyd yn y dDCO [REP4-005] ac mae'n cydnabod hynny byddai'r Cynllun manwl yn amodol ar ei gymeradwyo fel rhan o gyflawni</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Gofyniad 9. Felly, mae'n ystyried y mesurau yn dderbyniol ar hyn o bryd yn y cylch bywyd. Os ydych yn anghytuno â'i gasgliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch pam; a • Nodwch pa newidiadau penodol y credwch sydd eu hangen i'r Cynllun Rheoli Llŵch Amlinellol [REP2-042].
Q2.16	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad Iechyd Dynol</p> <p>Ar ôl cyflwyno'ch Nodyn Egluro ynghylch Sŵn a Dirgryniad Adeiladu [REP4-045] a'r bwriad i ddiweddarau'r Bennod Sŵn a Dirgryniad yn yr ES [APP-072] a'r adroddiad technegol ynghylch sŵn a dirgryniadau Adeiladu [APP-179] erbyn Dyddiad Cau 5, gyda'r rhesymau dros eich safbwynt, rhowch wybod a oes angen i chi ddiweddarau Adrannau 4.8.7 a/neu 4.10.7 o ES Cyf 4, Pennod 4? Dylid cyflwyno unrhyw ddiweddariad o'r fath erbyn Dyddiad Cau 5.</p>
2.2 Adeiladu		
Q2.21	Yr Ymgeisydd	<p>Cynllun lliniaru safle-benodol</p> <p>Ar sail heb ragfarn, a allwch chi ddrafftio geiriad ar gyfer gofyniad ychwanegol yn Atodlen 2 y dDCO [REP4-005] a fyddai'n darparu cynllun safle-benodol ar gyfer deiliaid Tyddyn Meredydd a fyddai'n lliniaru effeithiau gweithgareddau adeiladu sy'n codi? o'r gwaith hwnnw gan gynnwys sŵn, dirgrynu, llwch ac effeithiau gweledol (gan gynnwys pob golau artiffisial). Fel cyfeiriad fe'ch cyfeirir at Orchymyn Caniatâd Datblygu'r Grid Cenedlaethol (Prosiect Galluogi Ynni Gwyrdd Swydd Efrog) 2024, Atodlen 3, Erthygl 19(1), (3) a (4).</p>
2.3 Buddiannau Amddiffyn a Hedfanaeth Sifil a Milwrol		
Q2.31	Maes Awyr Blackpool	<p>Lliniaru effeithiau ar Isafswm Uchder Sector Maes Awyr Blackpool (MSA)</p> <p>Heb ragfarn i'r asesiad diogelu parhaus, a yw'r Maes Awyr yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd bod codi'r MSA o 2000 troedfedd i 2200 troedfedd yn debygol o fod y lliniaru priodol ar gyfer prosiect Mona?</p>
Q2.32	Maes Awyr Blackpool	<p>Lliniaru effeithiau ar MSA Maes Awyr Blackpool</p> <p>Yn ISH4, dywedodd yr Ymgeisydd fod asesiad diogelu Maes Awyr Blackpool yn mynd rhagddo a bod risg na fydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gwblhau cyn bod yn rhaid i'r Archwiliad hwn gau. Yn y senario na ellir sicrhau'r lliniaru gofynnol ar gyfer prosiect Mona erbyn diwedd yr Archwiliad hwn:</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio'r Datganiad Tir Cyffredin neu Gyflwyniad Clo ar Ddyddiad Cau 7 i nodi'n llawn statws asesiad diogelu'r Maes Awyr fel y mae'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig; • darparu'r graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer cytundeb terfynol ar liniaru effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar MSA y Maes Awyr; a • nodi unrhyw rwystrau rhag rhoi'r mesurau lliniaru gofynnol ar waith.
Q2.3.3	Maes Awyr Blackpool	<p>Ymyrraeth bosibl i gyfathrebiadau gydag awyrennau sy'n gweithredu ar lefel isel</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymhelaethu ar y materion a godwyd yn SoCG [REP3-030], cyf BA.AR.13 ynghylch ymyrraeth bosibl i gyfathrebu gydag awyrennau sy'n gweithredu ar lefel isel. • A ydych yn ceisio rheolaethau ychwanegol gan brosiect Mona yn hyn o beth?
Q2.3.4	Yr Ymgeisydd	<p>Radar Gwyliadwriaeth Sylfaenol Maes Awyr Lerpwl (PSR)</p> <p>Ni waeth a yw Maes Awyr Lerpwl wedi ymgysylltu â'r Archwiliad hwn, bydd angen i'r ExA ddod i gasgliad ar yr effeithiau andwyol sylweddol tebygol i PSR Maes Awyr Lerpwl a nodir yn yr ES [APP-075].</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan nodi eich ymatebion i ExQ1.3.5 a 1.3.6 [REP3-062] nad oes modd symud ymlaen â datrysiaid lliniaru heb ymgysylltu â Maes Awyr Lerpwl, i ba raddau ydych chi'n ystyried bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio ag Adran 5.5 o NPS EN -1 ac yn enwedig paragraffau 5.5.43 a 5.5.50? • Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau sylweddol posibl ar PSR Maes Awyr Lerpwl, os oes angen hynny? • Mae'r Awdurdod Archwilio yn ailadrodd ei gais yn ExQ1.3.5 [PD-013] am safleoedd terfynol erbyn Dyddiad Cau 7.
2.4 Y Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr		
Q2.4.1	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad Allyriadau Carbon</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau a oes gan ddyfarniad diwedd yr uchel lys yn <i>Friends of the Earth Ltd & South Lakeland Action on Climate Change vs SSLUHC</i> unrhyw oblygiadau i'r asesiad o allyriadau carbon a gynhaliwyd ym Mhennod 2.10 [APP-076].</p> <ul style="list-style-type: none"> • A oes angen dadansoddi allyriadau carbon ymhellach i lawr y gadwyn o'r prosiect?

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> A fyddai angen ystyried cyfnodau dim cyflenwad pan fyddai angen i ffynonellau eraill sy'n cynhyrchu trydan sy'n creu allyriadau carbon uniongyrchol (e.e. nwy) wneud iawn am y trydan a gynhyrchir gan Fona?
2.5 Pysgodfeydd Masnachol, Pysgod a Physgod Cregyn		
Q25.1	Yr Ymgeisydd Llywodraeth Cymru	<p>Polisi Cymru</p> <p>A allwch chi gynghori os a sut mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac:</p> <ul style="list-style-type: none"> ECON_01: Twf economaidd cynaliadwy; a FIS_01: Pysgodfeydd
Q25.2	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Alltraeth</p> <p>Mae'r effeithiau a amlygwyd ym Mhennod 6 (Cyfrol 2) Pysgodfeydd Masnachol [APP-058] yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dadleoli gweithgarwch pysgota i ardaloedd eraill lle mae llongau eraill yn weithredol ac yn cael effaith. <p>Fodd bynnag, mae Tabl 11.11 ym Mhennod 11 (Cyfrol 2) Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Alltraeth [APP-063] ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dadleoli gweithgarwch pysgota i ardaloedd eraill. <p>A allwch chi egluro pam nad yw effeithiau rhyng-gysylltiedig yn cyfeirio at y testun ychwanegol "i ardaloedd eraill lle mae llongau eraill yn weithredol ac yn cael effaith".</p>
Q25.3	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad cronol</p> <p>A allwch chi gynghori pam mae cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer llongau pysgota lleol yn ymddangos fel effaith yn yr asesiad cronol, ond nad ydynt yn ymddangos yn effeithiau'r prosiect ar ei ben ei hun a amlygwyd ym Mhennod 6 (Cyfrol 2) Pysgodfeydd Masnachol [APP-058].</p>
Q25.4	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad cronol</p> <p>A allwch chi grynhoi ei asesiad o effeithiau'r asesiad cronol sy'n gysylltiedig â physgodfeydd Ynys Manaw.</p>
Q25.5	Yr Ymgeisydd	<p>Monitro</p> <p>Allwch chi esbonio sut rydych chi'n bodloni NPS EN-3 paragraff 2.8.247 sy'n nodi na wyddys p'un a allai amlygiad i lawer o geblau a cheblau â chapasiti mwy gael effaith gronol ar rywogaethau sensitif ac y</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		gall monitro allyriadau EMF ddarparu'r dystiolaeth i lywio Asesiadau o Effeithiau Amgylcheddol (AEAau) yn y dyfodol.
Q2.5.6	Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, Scottish Whitefish Producers Association Limited, West Coast Sea Products Ltd Bodorgan Marine Limited	Mesurau Lliniaru a monitro Os nad ydych yn fodlon ar y mesurau pysgodfeydd masnachol a gynigir gan yr Ymgeisydd ac a fynegir yn yr Atodlen Mesurau Lliniaru a Monitro [REP4-013], a allwch chi nodi pa fesurau lliniaru a monitro sy'n ofynnol gyda chrynodeb o'r rhesymau.
Q2.5.7	Yr Ymgeisydd	Mesurau Lliniaru a monitro <i>A allwch chi grynhoi sut yr ydych yn bodloni paragraff 2.8.251 NPS EN-3 2.8.251 'Dylai lliniaru gael ei gynllunio i wella, lle bo'n rhesymol bosibl, unrhyw fanteision cadarnhaol tymor canolig a hirdymor bosibl i'r diwydiant pysgota, stociau pysgod masnachol a'r amgylchedd morol'.</i>
Q2.5.8	Yr Ymgeisydd	Arwyddocâd Effeithiau A allwch chi egluro pam nad yw'n ymddangos bod Tabl 3.34: Crynodeb o effeithiau amgylcheddol posibl, mesurau lliniaru a monitro [APP-055] yn datgan arwyddocâd yr effaith ar gyfer pysgod cregyn. Er enghraifft: i) ni nodir arwyddocâd yr effaith yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu ar gyfer sŵn tanddwr sy'n effeithio ar bysgod cregyn; ac ii) ni nodir arwyddocâd yr effaith yn ystod y cam gweithredu ar gyfer Meysydd Electromagnetig (EMF) o geblau trydanol tanfor sy'n effeithio ar bysgod cregyn.
Q2.5.9	Yr Ymgeisydd	Arwyddocâd Effeithiau A allwch chi egluro pam nad yw'n ymddangos bod Tabl 3.35: Crynodeb o effeithiau amgylcheddol cronol posibl, mesurau lliniaru a monitro [APP-055] yn datgan arwyddocâd effeithiau ar gyfer y grwpiau o Nodweddion Ecolegol Pwysig a nodir yn Nhabl 3.14 [APP-055], h.y. morol, pysgod cregyn ac ymfudol.
Q2.5.10	Yr Ymgeisydd	Effeithiau Haen 1


ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>A allwch chi egluro pam nad yw Tabl 3.35: Crynodeb o effeithiau amgylcheddol cronol posibl, mesurau lliniaru a monitro [APP-055] yn nodi effeithiau Haen 1 sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog a dyddodion gwaddodion cysylltiedig; a chyflwyno strwythurau artiffisial a chytrefu strwythurau caled.</p>
Q25.11	<p>CNC (C) Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, Scottish Whitefish Producers Association Limited, West Coast Sea Products Ltd</p>	<p>Effeithiau ar Gregyn y Frenhines</p> <p>Mae Pennod 3 (Cyfrol 2) Ecoleg pysgod a physgod cregyn [APP-055] yn amlygu effaith isel a sensitifrwydd isel ar gyfer cregyn y Frenhines sy'n arwain at effaith niweidiol fach (nad yw'n arwyddocaol o ran AEA) ar gyfer effeithiau yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) cholli cynefin/aflonyddu dros dro ii) cynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog a dyddodion gwaddodion cysylltiedig. iii) aflonyddu/ailysgogi halogyddion sydd ynghlwm wrth waddodion yn ystod adeiladu. <p>Os ydych yn anghytuno â'r asesiad hwn, a wnewch chi ddarparu tystiolaeth i gyfiawnhau eich safbwynt a chynnwys unrhyw fesurau lliniaru priodol.</p>
Q25.12	<p>CNC (C) Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, Scottish Whitefish Producers Association Limited, West Coast Sea Products Ltd</p>	<p>Effeithiau ar Gregyn y Frenhines</p> <p>Mae Pennod 3 (Cyfrol 2) Ecoleg pysgod a physgod cregyn [APP-055] yn nodi y byddai colli cynefin cregyn y Frenhines yn y tymor hir yn cael effaith fach ac yr ystyrir bod y sensitifrwydd yn ganolog, gan arwain at arwyddocâd niweidiol bach, nad yw'n arwyddocaol o ran AEA. Os ydych yn anghytuno â'r asesiad hwn, a wnewch chi ddarparu tystiolaeth i gyfiawnhau eich safbwynt a chynnwys unrhyw fesurau lliniaru priodol.</p>
Q25.13	<p>CNC (C) Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, Scottish Whitefish Producers Association Limited, West Coast Sea Products Ltd</p>	<p>Effeithiau ar Gregyn y Frenhines</p> <p>Mae Adran 3.11 Asesiad Cronnol ym Mhennod 3 (Cyfrol 2) Ecoleg pysgod a physgod cregyn [APP-055] yn nodi nad yw arwyddocâd effeithiau ar gregyn y Frenhines yn arwyddocaol o ran AEA. Os ydych yn anghytuno â'r asesiad hwn, a wnewch chi ddarparu tystiolaeth i gyfiawnhau eich safbwynt a chynnwys unrhyw fesurau lliniaru priodol.</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q25.14	CNC (C)	<p>Penfreision a Phenwaig</p> <p>A allwch chi roi diweddariad ar faterion yn ymwneud â phenfreision a phenwaig a chrynhoi unrhyw bwyntiau anghytundeb sy'n weddill, gan gynnwys unrhyw ofynion monitro.</p>
Q25.15	The Applicant	<p>Meysydd electromagnetig</p> <p>Mae paragraff 2.8.247 yn NPS EN-3 yn nodi 'nid yw'n hysbys a allai dod i gysylltiad â cheblau lluosog a cheblau capasiti mwy cael effaith gronnol ar rywogaethau sensitif. Felly, mae'n bwysig monitro allyriadau EMF a allai ddarparu'r dystiolaeth i lywio AEC yn y dyfodol'. A allwch chi egluro sut rydych chi'n bodloni'r paragraff penodol hwn.</p>
<p>2.6 Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)</p>		
<p>Mae'r ExA yn bwriadu cynnal Gwrandawriad Caffael Gorfodol yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Rhagfyr, pryd y bydd ganddo gwestiynau ychwanegol.</p>		
Q26.1	Yr Ymgeisydd	<p>Sicrhau mynediad i dir yn ystod y cam adeiladu</p> <p>Lle y byddai "ynysoedd" neu bocedi o dir wedi'u hamgylchynu gan dir yr ydych yn ceisio CA neu TP drosto, gweler yr enghreifftiau dangosol isod, pa ddarpariaethau fyddai'n cael ei gwneud i berchnogion/tirfeddianwyr barhau i gael mynediad i'r tir hwnnw a'i ddefnyddio? Sut byddai hyn yn cael ei sicrhau yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)?</p> 
Q26.2	SP Manweb PLC	<p>Darpariaethau amddiffynnol</p> <p>Yn CAH1 [EV-008] ac ISH5 [EV-007], dywedodd yr Ymgeisydd fod darpariaethau amddiffynnol wedi cael eu cytuno rhwng y partïon, y byddai'r dDCO [REP4-005] yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny erbyn Dyddiad Cau 4 ac wedi hynny y byddech yn ysgrifennu i gynghori bod eich sylw'n cael ei dynnu'n</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>ôl [PDA-049]. Mae Traciwr Hawliau Tir yr Ymgeisydd a ddiweddarwyd yn ddiweddarach [REP4-091] yn cynghori bod angen datrys pwynt drafftio rhwng y partïon cyn i'r dDCO gael ei ddiweddarau'n unol â hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'ch safbwynt chi, a yw hynny'n grynodeb cywir o sefyllfa'r partïon? • A allwch chi gadarnhau y bydd cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol yn datrys eich gwrthwynebiadau sy'n weddill? Os na, pa gytundeb(au) ychwanegol sy'n ofynnol? • Gan nodi eich darpariaethau amddiffynnol drafft a gyflwynwyd [REP3-106], os na fyddwch wedi dod i gytundeb arnynt gyda'r Ymgeisydd erbyn Dyddiad Cau 5, cyflwynwch esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a, thrwy anodi Rhan 4, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005], nodwch ba newidiadau penodol y mae angen eu gwneud i fynd i'r afael â nhw.
Q26.3	Wales and West Utilities	<p>Darpariaethau amddiffynnol</p> <p>Yn ISH5 [EV-007], dywedodd yr Ymgeisydd fod eich cynrychiolwyr cyfreithiol wedi cynghori eu bod yn ceisio cyfarwyddyd gennych ynglŷn â diwygiadau arfaethedig i'r darpariaethau amddiffynnol a gynhwysir yn Rhan 5, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005]. Yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP3-076], cynghorodd y disgwylwyd cytundeb rhwng y partïon cyn i'r Archwiliad ddod i ben.</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'ch safbwynt chi, a yw hynny'n grynodeb cywir o sefyllfa'r partïon? • A allwch chi gadarnhau y bydd cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol yn datrys eich gwrthwynebiadau sy'n weddill? Os na, pa gytundeb(au) ychwanegol sy'n ofynnol? • Os na fyddwch wedi dod i gytundeb arnynt gyda'r Ymgeisydd erbyn Dyddiad Cau 5, cyflwynwch esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a, thrwy anodi Rhan 5, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005], nodwch ba newidiadau penodol y mae angen eu gwneud i fynd i'r afael â nhw.
Q26.4	Gweinidogion Cymru fel yr Awdurdod Prifffyrdd Strategol	<p>Darpariaethau amddiffynnol a chytundeb gwirfoddol</p> <p>Yn CAH1 [EV-008] ac ISH5 [EV-007], cynghorodd yr Ymgeisydd ei fod yn agos iawn at ddod i gytundeb gyda chi ar ddarpariaethau amddiffynnol arfaethedig. Yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091], dywedodd ei fod yn disgwyl dod i gytundeb â chi ar ddarpariaethau amddiffynnol '<i>yn fuan</i>'.</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'ch safbwynt chi, a yw hynny'n grynodeb cywir o sefyllfa'r partïon? • O ran hawliau tir y mae'r Ymgeisydd yn ceisio eu caffael gennych, a ydych yn disgwyl y byddwch yn dod i gytundeb gwirfoddol gyda'r Ymgeisydd cyn i'r Archwiliad ddod i ben?

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> Os na fyddwch wedi dod i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ar ddarpariaethau amddiffynnol erbyn Dyddiad Cau 5, cyflwynwch esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a, thrwy anodi Rhan 6, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005], nodwch ba newidiadau penodol y mae angen eu gwneud i fynd i'r afael â nhw.
Q2.6.5	National Grid Electricity Transmission PLC	<p>Darpariaethau amddiffynnol</p> <p>Yn ISH5 [EV-007], dywedodd yr Ymgeisydd fod trafodaethau'n parhau gyda chi ynglŷn â darpariaethau amddiffynnol a sut byddai'r rheiny'n berthnasol i ryngweithiadau wrth yr is-orsaf ar y tir ac ar hyd y coridor ceblau arfaethedig. Yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091], cynghorodd y disgwyliwyd cytundeb rhwng y partïon cyn i'r Archwiliad ddod i ben.</p> <ul style="list-style-type: none"> O'ch safbwynt chi, a yw hynny'n grynodedb cywir o sefyllfa'r partïon? A allwch chi gadarnhau y bydd cytuno ar ddarpariaethau amddiffynnol yn datrys eich gwrthwynebiadau sy'n weddill? Os na, pa gytundeb(au) ychwanegol sy'n ofynnol? Gan nodi eich bod wedi cyfeirio yn eich Sylw Ysgrifenedig [REP1-055] at y darpariaethau amddiffynnol er eich budd a gynhwyswyd yng Ngorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr 2023, os na fyddwch wedi dod i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ar ddarpariaethau amddiffynnol erbyn Dyddiad Cau 5, cyflwynwch esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a, thrwy anodi Rhan 7, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005], nodwch ba newidiadau penodol y mae angen eu gwneud i fynd i'r afael â nhw.
Q2.6.6	Addleshaw Goddard PLC ar ran Network Rail Infrastructure Limited	<p>Darpariaethau amddiffynnol</p> <p>Yn ISH5 [EV-007], dywedodd yr Ymgeisydd fod trafodaethau'n parhau gyda chi ynglŷn â'r materion a godwyd yn eich sylw ysgrifenedig [REP1-057] ac, yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091], cynghorodd y disgwyliwyd cytundeb rhwng y partïon ar yr holl faterion sy'n weddill cyn diwedd yr Archwiliad.</p> <ul style="list-style-type: none"> O'ch safbwynt chi, a yw hynny'n grynodedb cywir o sefyllfa'r partïon? Os na, beth yw'r pwyntiau anghytundeb sy'n weddill rhyngoch chi a'r Ymgeisydd? Gan edrych ar ran olaf eich sylw ysgrifenedig [REP1-057], rhowch unrhyw ddiweddariad ar 'Ofynion er mwyn tynnu'n ôl'. Os na fyddwch wedi dod i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ar ddarpariaethau amddiffynnol erbyn Dyddiad Cau 5, cyflwynwch esboniad o'r meysydd anghytundeb, y rhesymau pam a, thrwy anodi

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Rhan 8, Atodlen 10 y dDCO [REP4-005], nodwch ba newidiadau penodol y mae angen eu gwneud i fynd i'r afael â nhw.
Q2.6.7	AyM Offshore Wind Farm Limited	<p>Darpariaethau amddiffynnol</p> <p>Yn ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Ysgrifenedig ([REP2-078], Tabl 2.4):</p> <ul style="list-style-type: none"> Eglurodd yng Nghyfeirnod REP1-061.3 o hynny ac yn ystod ISH5 [EV-007] yr hyn y mae'n ystyried yw hyd a lled yr hawliau tir a allai wrthdaro rhwng y partïon. Gan roi rhesymau dros eich ymateb, a ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn? Yng nghyfeirnod REP1-061.4, cyfeiriodd at adolygiad o set ddrafft o ddarpariaethau amddiffynnol ac yn CAH1 [EV-008] ac ISH5 [EV-007] crybwyllwyd cysylltiad wedi'i ddiweddarau rhwng y partïon. Os na fyddwch wedi dod i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ar ddarpariaethau amddiffynnol erbyn Dyddiad Cau 5, a allwch chi gynghori ar eiriad darpariaethau amddiffynnol a fyddai'n ofynnol yn eich barn chi i osgoi niwed difrifol i gyflawni eich ymgymeriad?
Q2.6.8	Shepherd & Wedderburn ar ran Burbo Extension Limited	<p>Cytundeb ar hawliau tir/eiddo</p> <p>A ydych chi'n cytuno ag adroddiad yr Ymgeisydd ar drafodaethau gyda chi yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091]? Os na, esboniwch pam.</p>
Q2.6.9	Yr Ymgeisydd	<p>Achosion a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) i fodloni'r Ysgrifennydd Gwladol</p> <p>Yn CAH1 [EV-008], fe ddywedoch y byddech yn gwneud ceisiadau o dan a127 ac a138 PA2008, fel sy'n ofynnol, cyn diwedd yr Archwiliad. Os na fyddwch wedi dod i gytundeb gydag Ymgymerywr Statudol cyn Dyddiad Cau 5, a wnewch chi gyflwyno ceisiadau o'r fath ar y dyddiad hwnnw er mwyn hwyluso ymateb Ymgymerywr Statudol erbyn Dyddiad Cau 6?</p>
Q2.6.10	AyM Offshore Wind Farm Limited National Grid Electricity Transmission PLC Addleshaw Goddard PLC ar ran Network	<p>Achosion a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) i fodloni'r Ysgrifennydd Gwladol</p> <p>Bydd y materion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach mewn gwrandawladau yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Rhagfyr 2024, y gofynnir i chi fod yn bresennol ynddynt. Erbyn Dyddiad Cau 6, naill ai wrth ymateb i'r cwestiwn hwn neu fel datganiad ysgrifenedig o sylwadau llafar a roddwyd mewn gwrandawriad perthnasol, a allwch chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roi diweddariad ynglŷn â chytuno ar faterion sy'n weddill gyda'r Ymgeisydd; a Darparu unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud, gyda rhesymau, ar yr achosion a127 ac a138 (fel y bo'n briodol) y bydd yr ymgeisydd wedi'u cyflwyno erbyn Dyddiad Cau 5.

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Rail Infrastructure Limited SP Manweb PLC Wales and West Utilities Gweinidogion Cymru fel yr Awdurdod Priffyrdd Strategol	
Q26.11	CCBC	CCBC A ydych chi'n cytuno ag adroddiad yr Ymgeisydd ar drafodaethau gyda chi yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091]? Os na, esboniwch pam. Pa gytundeb neu sicrwydd y byddai angen i'r Ymgeisydd ei roi i chi i alluogi CCBC i ddod i gytundeb gwirfoddol ag ef mewn perthynas â hawliau a geisir yn eich tir?
Q26.12	DMPC ar ran Mr EW Roberts	Mr R W Roberts A allwch chi roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau â'r Ymgeisydd ers yr Archwiliad Safle gyda Chwmni ar 15 Hydref 2024 a CAH1 [EV-008]? Ar ôl cael y cyfle i ystyried y Cynllun Amlinellol ar gyfer Rheoli Mynediad i Briffyrdd [APP-228] fel y mae'n berthnasol i dir eich cleientiaid, pa ddiwygiadau penodol iddo sydd eu hangen yn eich barn chi i fynd i'r afael â phryderon eich cleient ynghylch atal gollwng dŵr i'r priffyrdd cyhoeddus?
Q26.13	DMPC ar ran Mr AEM Owen ac A Owen Cyf	Mr AEM Owen ac A Owen Cyf A allwch chi roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau â'r Ymgeisydd ers CAH1 [EV-008]? Pa gytundeb neu sicrwydd y byddai angen i'r Ymgeisydd ei ddarparu i'ch cleientiaid i'w galluogi i dynnu eu gwrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl fel y bo'n berthnasol i'r hawliau y mae'r Ymgeisydd yn eu ceisio yn eu tir? Yn ychwanegol at dystiolaeth yr ydych wedi'i chyflwyno ar ran eich cleientiaid mewn cyflwyniadau blaenorol, a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Davis Meade Property Consultants ar ran Mr AEM Owen ac A Owen [REP4- 078]?
Q26.14	DMPC ar ran:	Mrs G Williams a Mr M Williams a Mr H a Mrs C Lloyd

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Mrs G Williams a Mr M Williams Mr H a Mrs C Lloyd Mr RW Roberts	A ydych chi'n cytuno ag adroddiad yr Ymgeisydd ar drafodaethau gyda'ch cleientiaid yn ei Draciwr Hawliau Tir [REP4-091]? Os na, esboniwch pam. Mae'r ExA yn ymwybodol o'ch sylw ysgrifenedig (WR) [REP1-082] sy'n amlinellu pryderon cyffredinol eich cleientiaid. Fodd bynnag, nid oedd sylwadau perthnasol (RRau) unigol y cleientiaid hynny [RR-052, RR-053 ac RR-055] yn esbonio pa bryderon penodol sydd ganddynt ynglŷn â hawliau yn eu tir a geisir gan yr Ymgeisydd. Ar y sail honno, pa gytundeb neu sicrwydd y byddai angen iddo ei roi iddynt, o ran hawliau a geisir yn eu tir, i allu dod i gytundeb gwirfoddol?
Q26.15	Yr Ymgeisydd	Amrywio cyfamod cyfyngol Yn CAH1 [EV8-002], fe gynghoroch, o ran Llain 02-024, na fyddai'r cyfamod cyfyngol y bwriedir iddi fod yn ddarostyngedig iddo trwy gyfrwng Atodlen 8 ac Erthygl 20 y dDCO [REP4-005] yn atal cynlluniau'r perchnogion i ddatblygu'r tir o reidrwydd, yn amodol ar eich cytundeb. <ul style="list-style-type: none">A fyddai amrywiad posibl o'r fath o'r cyfamod cyfyngol arfaethedig yn fater cyfreithiol preifat rhyngoch chi a'r tirfeddiannwr/meddiannydd, y tu allan i awdurdodaeth y dDCO? Pa hawl i ddyfarnu fyddai ar gael i'r olaf pe na byddech yn fodlon amrywio'r cyfamod cyfyngol i hwyluso ei gynlluniau ar gyfer datblygu ei dir?
Q26.16	Yr Ymgeisydd	G Lloyd Evans a'i Feibion Yn ystod yr Archwiliad Safle gyda Chwmni ar fferm G Lloyd Evans a'i Feibion, rhoddwyd diweddariad llafar ar hyd a lled y Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) y cytunwyd arno hyd yma. Darparwch gynllun sy'n dangos hyd a lled yr HDD arfaethedig fel y byddai'n effeithio ar y daliad a chynghorwch sut byddai hyn yn cael ei sicrhau trwy'r dDCO [REP4-005]. A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau presennol mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i J Bradburne Price & Co ar ran G Lloyd Evans & Sons ExQ1 Responses [REP4-070].
Q26.17	J Bradburne Price & Co ar ran G Lloyd Evans a'i Feibion	G Lloyd Evans a'i Feibion A allwch chi roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau â'r Ymgeisydd ers CAH1 [EV-008]? Pa gytundeb neu sicrwydd y byddai angen i'r Ymgeisydd ei ddarparu i'ch cleientiaid i'w galluogi i dynnu eu gwrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl?
Q26.18	J Bradburne Price & Co ar ran Mr Roberts	Mr Roberts A allwch chi roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau â'r Ymgeisydd ers yr Archwiliad Safle gyda Chwmni ar 15 Hydref 2024 pan eglurwyd y mynediad y mae'n ei geisio dros dir eich cleient?

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Pa gytundeb neu sicrwydd y byddai angen i'r Ymgeisydd ei ddarparu i'ch cleient i'w alluogi i dynnu ei wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig yn ôl?
Q26.19	DTM Legal LLP ar ran Jennings Building & Civil Engineering Limited	Jennings Building & Civil Engineering Limited Yn eich cyflwyniad ar ran eich cleient [REP4-117] rydych yn cyfeirio at y 'Stribed Hawddfrain'. Gan ddefnyddio naill ai'r Cynllun Tir ar y Tir - Taflen Rhif 2 [REP1-004] neu'r Cynllun Gwaith - Taflen Ar y Tir 2 [AS-003], a wnewch chi anodi'r naill neu'r llall gyda'r ardal yr ydych yn cyfeirio ati.
Q26.20	Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach	Michael a Sally Leach Lle mae'n ymdrin ag ymyrraeth bosibl â'ch hawliau tir, a chan gofio na all yr Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd mewn perthynas â dyfarnu iawndal, a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach ([REP4-077], REP3-113.4)?
Q26.21	DPMC ar ran Hefin Williams	Hefin Williams A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau presennol ar ran eich cleient mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Davis Meade Property Consultants ar ran Hefin Williams [REP4-066]?
Q26.22	DMPC	Davis Meade Property Consultants Heblaw am bwyntiau yr ydych eisoes wedi'u codi mewn amrywiol gyflwyniadau ar ran cleientiaid, a oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Davis Meade Property Consultants ar ran y Partïon yr Effeithir arnynt [REP4-068]?
Q26.23	Forsters ar ran Ysgutorion Ystad y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn Bt	Ystâd Cefn A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y cyfarfod arfaethedig gyda'r Ymgeisydd? Os na chynhaliwyd y drafodaeth a drefnwyd ar 11 Tachwedd, pryd y cynigir y bydd y partïon yn cyfarfod?
Q26.24	Yr Ymgeisydd	Safle Is-orsaf Wrth ymateb i gyflwyniad Forsters ar ran Ysgutorion Ystâd y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn Bt [REP4-119] mewn perthynas â'r is-bennawd ' <i>Nid oes cyfiawnhad dros raddfa a deiliadaeth y tir a geisir a'r safle nid yw'r broses ddethol wedi bod yn ddigonol</i> ', a allwch chi egluro sut y byddai maint

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		(cymharol) yr hawliau tir a geisir yn cydymffurfio ag a122(2)(a) a (b) o Ddeddf 2008 gan ystyried y dystiolaeth a ddyfynnwyd gennych yn ISH3 [EV5] am y broses dewis safle?
Q2.6.25	CCBC DCC	Man Agored Yn ei Ymateb i Ymatebion ExQ1 CCBC a DCC ([REP4-058], REP3-078.7) aeth yr Ymgeisydd i'r afael â'ch pryderon mewn ymateb i C1.6.14 (PD-013] Gyda rhesymau dros eich safbwynt, a yw ei esboniad yn mynd i'r afael â'ch pryderon?
Q2.6.26	Yr Ymgeisydd	Man Agored Yn eich Ymateb i Ymatebion ExQ1 CCBC a DCC ([REP4-058], REP3-078.7) rydych yn dweud, mewn perthynas â Phlot 01-003 y byddai gosod ffensys yn cael ei gyfyngu i gylchred 3-4 wythnos ar gyfer pob un o'r 4 cylchedau cebl arfaethedig: <ul style="list-style-type: none"> • A fyddai'r cyfnod arfaethedig hwnnw'n cael ei reoli gan y dDCO?; a • Os na, wrth ystyried a fyddai'r elfen hon o'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni 132(3) o Ddeddf Cynllunio 2008, sut y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn sicr mai <i>'dim ond rhan fach iawn o'r llain hon fydd yn cael ei ffensio dros dro ac am gyfnod cyfyngedig</i> '?
2.7 Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (dDCO)		
Bydd gan yr ExA gwestiynau pellach yn ISH6 ar 10 Rhagfyr 2024		
Q2.7.1	Yr Ymgeisydd	Memorandwm Esboniadol A allwch sicrhau bod yr holl bwyntiau y cyfeiriwyd atynt yn eich ymateb i Bwyntiau Gweithredu Gwrandawriad mis Hydref [REP4-036] yn cael eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol sydd i'w gyflwyno yn D5.
2.8 Perygl Llifogydd a'r Amgylchedd Dŵr		
Q2.8.1	Yr Ymgeisydd	Ardaloedd storio ychwanegol Yn Adran 1.9.1.13 y Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP) Amlinellol [REP4-023], rydych yn cyfeirio at yr angen posibl am ardaloedd storio ychwanegol ar hyd Coridor Cebiau Ar y Tir Mona, Coridor Cebiau Cysylltu â'r Grid 400kV Mona ac wrth yr Is-orsaf ar y Tir. Yn Adran 1.9.1.13, rydych yn ychwanegu y byddant <i>'yn cael eu lleoli i ffwrdd oddi wrth gyrsiau dŵr a pharthau llifogydd lle y bo'n bosibl'</i> (pwyslais yr ExA). Os bydd eu hangen, a fyddai eu hunion leoliad yn destun Gofyniad 9(1) y dDCO [REP4-005]?

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q2.82	Yr Ymgeisydd Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited A wnewch chi roi diweddariad ar drafodaethau rhwng yr Ymgeisydd a Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited.
Q2.83	Yr Ymgeisydd	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited Gan gyfeirio at dystiolaeth i gefnogi'ch ymateb, a ydych yn derbyn bod posibilrwydd y gallai adeiladu llwybr y ceblau ar y tir effeithio ar y cyflenwad dŵr i'r bysgodfa?
Q2.84	Yr Ymgeisydd	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited Yn eich Ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ1) ([REP3-062], C1.21.11), fe ddywedoch fod gwaith monitro dŵr yn cael ei wneud. A allwch chi roi unrhyw ddiweddariad ar natur y gwaith monitro dŵr hwnnw a phryd y bydd y canlyniadau'n hysbys ac yn cael eu cyflwyno i'r Archwiliad? Yn ogystal, fe ddywedoch y byddai effeithiau adeiladu'n cael eu rheoli trwy'r CoCP. A allwch chi amlinellu'r mesurau yn y CoCP amlinellol neu ei gynlluniau rheoli amlinellol atodedig a fyddai'n rheoli effeithiau posibl ar hydroleg ac, yn benodol, y cyflenwad dŵr i'r Bysgodfa?
Q2.85	Yr Ymgeisydd Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited Mae Adran 1.2.1.2 y Cynllun Rheoli Draenio Dŵr Wyneb Adeiladu Amlinellol (OCSWDMP) ([APP-218] yn amlinellu'r <i>'gweithdrefnau rheoli a monitro allweddol mewn perthynas â dŵr wyneb a draenio a fydd yn ofynnol yn ystod adeiladu'</i> y Datblygiad Arfaethedig – a yw hyn yn ymdrin yn ddigonol â'r materion a godwyd gan y Bysgodfa?
Q2.86	Yr Ymgeisydd Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited A oes angen unrhyw ymrwymiad ychwanegol yn y CoCP amlinellol, yr OCSWDMP neu unrhyw un o'r cynlluniau rheoli amlinellol i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau parhaol o ran, dyweder, aflonyddu neu ail-lwybro ffynhonnau tanddaear neu ffynonellau dŵr eraill sy'n cyflenwi'r nant sy'n bwydo'r Bysgodfa?
Q2.87	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu at eich cyflwyniadau blaenorol mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Tan-y-Mynydd Trout Fishery Limited [REP4-080]?
Q2.88	Yr Ymgeisydd	Croesi cwrs dŵr

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Pa ddarpariaeth a wnaed i groesi'r sianel dŵr storm bresennol sy'n cyffinio â'r ffordd fynediad i'r is-orsaf bresennol?
Q28.9	Yr Ymgeisydd	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Cyhoeddwyd canllawiau newydd ynghylch gofynion y WFD mewn perthynas â cheisiadau NSIP ar 20 Medi 2024 gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ei gwefan Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol: tudalennau cyngor. A allwch chi nodi sut yr ydych wedi ystyried y canllawiau hyn?
Q28.10	CNC	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr A yw Nodyn Egluro Geomorffoleg yr Ymgeisydd [REP4-040] yn mynd i'r afael â'ch sylwadau ym mhwynt 3.2.7 Elfennau geomorffoleg afonol o WFD eich RR (RR-011) ac yn eich SoCG gyda'r Ymgeisydd [REP1-026]? Os na, pa wybodaeth neu dystiolaeth bellach sydd ei hangen arnoch gan yr Ymgeisydd i leddfu eich pryder?
Q28.11	CCBC DCC	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr A yw Nodyn Egluro Geomorffoleg yr Ymgeisydd [REP4-040] yn mynd i'r afael â'ch sylw ynghylch nodweddu geomorffoleg yn eich LIR [REP1-048] a SoCG gyda'r Ymgeisydd [REP3-061]? Os na, pa wybodaeth neu dystiolaeth bellach sydd ei hangen arnoch gan yr Ymgeisydd i leddfu eich pryder?
Q28.12	Rebecca Face	Rebecca Face A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag ymateb yr Ymgeisydd i'ch ymateb ExQ1 [REP4-075]?
Q28.13	Stuart Neil	Stuart Neil A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag ymateb yr Ymgeisydd i'ch ymateb ExQ1 [REP4-076] a/neu eich cyflwyniad D3 [REP4-054]?
Q28.14	Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach	Michael & Sally Leach A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach ([REP4-077], REP3-113.3 a REP3-113.5)?
Q28.15	CCBC DCC	Risg Llifogydd ac Adnoddau Dŵr Yn eich LIR [REP1-049] daethoch i'r casgliad nad oedd effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar y perygl o lifogydd ac adnoddau dŵr wedi'u hasesu'n briodol. Yn dilyn ymateb yr Ymgeisydd i'ch LIR

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		[REP2-085] a chyfnewidiadau rhyngddo a CNC ([REP2-080], [REP3-090], [REP4-105]) a yw'r pryderon hynny wedi'u lleddfu?
2.9	Daearreg a Chyflwr y Tir	
Nid oes gan yr ExA unrhyw gwestiynau ar yr adeg hon.		
2.10	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	
Gweler yr Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES).		
2.11	Yr Amgylchedd Hanesyddol	
Q2.11.1	Yr Ymgeisydd	Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Disgwylir i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ddod i rym ar 4 Tachwedd 2024. A all yr Ymgeisydd adolygu'r ddeddf ac esbonio a oes unrhyw oblygiadau i'r asesiad a gynhaliwyd yn [APP-068] yn ogystal ag yn ei benodau ategol yn y Datganiad Amgylcheddol?
Q2.11.2	Yr Ymgeisydd	Polisi Amgylchedd Hanesyddol Mae paragraff 5.9.24 y Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar gyfer Ynni EN-1 yn datgan <i>"Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ystyried dymunoldeb sicrhau bod y datblygiad newydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a nodweddion unigryw lleol yr amgylchedd hanesyddol. Dylai'r ystyriaeth o ddyluniad gynnwys graddfa, uchder, màs, aliniad, deunyddiau, defnydd a thirweddu (er enghraifft, plannu er mwyn sgrinio)".</i> A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried cymeriad a nodweddion unigryw yr amgylchedd hanesyddol yn ei ddewisiadau dylunio ar gyfer yr Is-orsaf Ar y Tir?
2.12	Defnydd Tir	
Q2.12.1	Yr Ymgeisydd	Effaith bosibl ar fusnesau fferm Yn Adran 7.8.3 Pennod 7 (Cyfrol 3) y Datganiad Amgylcheddol: Defnydd Tir a Hamdden [APP-070], rydych yn amlinellu eich casgliadau ynglŷn â maint effaith y Datblygiad Arfaethedig ar ddaliadau fferm. Gan gyfeirio'n benodol at y 3 fferm laeth ddwys a amlygoch yn eich Ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ1) [REP3-062]:

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • A oedd y casgliadau hynny wedi'u seilio ar asesiad economaidd o effaith debygol y Datblygiad Arfaethedig ar weithrediadau a hyfywedd y busnesau fferm unigol yn ystod y cam adeiladu ac, fel y bo'n briodol, y cam gweithredol? • Os na, pa sail dystiolaethol y dibynnoch arni i lywio'ch asesiad o'r materion hynny a dod i'ch casgliadau? • A oedd y dadansoddiad hwn wedi'i lywio gan drafodaethau â'r busnes amaethyddol unigol a/neu ei gynrychiolwyr?
Q2.122	Iwan Roberts	<p>Iwan Roberts</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd i bryderon a godwyd yn eich Sylw Perthnasol [RR-029] yn ei Ymateb i Sylwadau Perthnasol ([PDA-008], Tabl 29):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan roi rhesymau dros eich safbwynt, a ydych yn cytuno â'i ymatebion i'ch pryderon? • Rydych yn cyfeirio at ddewisiadau amgen yn lle'r llwybr arfaethedig. A allwch chi nodi'r rhain ar fap neu gynllun?
Q2.123	Ysgutorion y Diweddwr Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig	<p>Tystiolaeth sy'n weddill</p> <p>Yn eich ymateb i gwestiwn C1.6.24 yr ExA [REP3-117], fe gyfeirioch at '<i>gynllun i ddilyn</i>'. A allwch chi gyflwyno'r cynllun hwn erbyn Dyddiad Cau 5 fel y gall yr ExA ddeall y pwynt rydych yn ei wneud?</p>
Q2.124	CBCC DCC	<p>Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>Yn eich LIR [REP1-049] codwyd pryderon penodol am effaith y Datblygiad Arfaethedig ar PRowWs. Aeth yr Ymgeisydd i'r afael â'r rhain yn ei ymateb i'ch LIR ([REP2-085, REP1-049.48 & REP1-049.157]). A oes gennych unrhyw bryderon cysylltiedig heb eu datrys?</p>
Q2.125	DCC	<p>'Yr Hen Lôn', Groesffordd Marli</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'ch safbwynt chi, beth yw statws cyfreithiol Plot rhif. 10-187 fel y dangosir ar y BoR [REP3-006]? • Os nad yw'n rhan o Lwybr Ceffylau Cyhoeddus dynodedig, a oes cynlluniau i wneud hynny? • Os yw am gael ei ddynodi felly, pryd mae hyn yn debygol o ddigwydd?
Q2.126	Yr Ymgeisydd	<p>'The Old Lane', Groesffordd Marli</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Will you be amending your Outline Public Rights of Way Management Strategy [REP2-070] in respect of Plot 10-187 as shown on the Land Plan (Onshore) [REP1-004]?
2.13	Tirwedd a Gweledol	a Dylunio Da
Q2.13.1	Yr Ymgeisydd	<p>Canllawiau Dylunio Da</p> <p>Cyhoeddwyd canllawiau newydd ar Ddylunio Da a'i gymhwyso i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar 23 Hydref 2024 gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ei wefan Cyngor ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.</p> <p>A all yr Ymgeisydd amlinellu sut mae wedi ystyried y canllawiau hyn, gan gynnwys y materion yr ymdrinnir â nhw yn Atodiad A y cyngor dylunio, a sut mae wedi ystyried pedair egwyddor ddylunio'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC)?</p>
Q2.13.2	CBCC DCC	<p>Goleuadau Adeiladu</p> <p>A oes gan y Cynghorau unrhyw sylw ar nodyn Egluro Goleuadau'r Ymgeisydd [REP4-043], yn benodol, paragraff 1.2.4.2, sy'n datgan: <i>"Nid ystyriwyd bod asesiad goleuo ar wahân yn gymesur o ystyried mai dros dro y bydd y defnydd o oleuadau tasg yn cael ei ddefnyddio dros dro ac yn lleol ac o ystyried y ffaith y bydd goleuo tasg yn cael ei reoli trwy weithredu'r Cynllun Amlinellol o Allyriadau Golau Artiffisial"?</i></p>
2.14	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol	a Newid Arfordirol
Q2.14.1	Yr Ymgeisydd	<p>Amddiffyn ceblau</p> <p>Yn ei gyflwyniad erbyn Dyddiad Cau 3 [REP3-090], mae CNC (C) yn datgan os amlygir unrhyw ardal o amddiffyn ceblau sy'n fwy na 5% o ddyfnder mordwyadwy, y dylid cynnal asesiad arall o brosesau ffisegol yn yr amgylchedd bas ger y lan ychydig tua'r môr o Gymedr Distyll y Gorllanw (MLWS) dros y pyllau ymadael (paragraff 102). A ydych chi'n cytuno bod hyn yn briodol ac, os felly, sut byddai'n cael ei sicrhau?</p>
Q2.14.2	Yr Ymgeisydd	<p>Claddu ceblau</p> <p>Yn ei gyflwyniad erbyn Dyddiad Cau 3 [REP3-030], mae CNC yn cynghori y dylai'r Ymgeisydd adolygu proffiliau traeth hanesyddol er mwyn pennu dyfnder claddu ceblau fel na fyddant yn cael eu hamlygu yn dilyn storm fawr. A allai hyn gael ei sicrhau trwy'r Datganiad Dull Adeiladu Glanfa?</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q2.14.3	Yr Ymgeisydd	Monitro adferiad tonnau tywod Gan nodi eich ymateb i ExQ1 (C1.14.4) [REP3-062] y bydd yr arolygon geomorffolegol yr ymrwymwyd iddynt eisoes yn awr yn cael eu hystyried yng nghyd-destun modelu adfer tonnau tywod at ddibenion gwybodaeth, a allwch sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf o fewn y Cynllun Monitro Mewn Egwyddor Alltraeth wedi'i ddiweddarau i'w gyflwyno yn D5 fel ei bod yn amlwg y caiff hwn ei gwblhau a pha amod DML sy'n sicrhau'r monitro.
2.15 Mordwyo a Morgludiant		
Q2.15.1	Yr Ymgeisydd Isle of Man Steam Packet Company	Datganiad Tir Cyffredin Cynhyrchwch Ddatganiad Tir Cyffredin ynglŷn â'r holl faterion sy'n berthnasol i Isle of Man Steam Packet Company. I'w gyflwyno erbyn Dyddiad Cau 5, a fersiwn derfynol erbyn Dyddiad Cau 7. Ychwanegwch Isle of Man Steam Packet Company at y Datganiad Cyffredinedd.
Q2.15.2	Stena Line (UK) Limited	Effeithiau gweddilliol ar weithrediadau Stena Line <ul style="list-style-type: none">• Disgrifiwch oblygiadau masnachol a / neu weithredol amserau teithio hirach ar gyfer gwasanaethau Stena Line o ganlyniad i brosiect Mona ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill ym Môr Iwerddon.• A ydych chi'n credu y gallai'r gwyriadau sy'n angenrheidiol i ddarparu prosiect Mona, ynghyd â ffermydd gwynt alltraeth eraill arfaethedig, fygwth hyfywedd gweithrediadau fferi Stena Line? Os felly, sut?• A oes unrhyw fesurau lliniaru eraill y credwch y dylai'r Ymgeisydd eu mabwysiadu i leihau effeithiau cronol gweddilliol y Datblygiad Arfaethedig ar weithrediadau Stena Line ymhellach mewn tywydd nodweddiadol a thywydd gwael?
Q2.15.3	Siambwr Forgludiant y Deyrnas Unedig	Gallu ychwanegol i dynnu Mae llinell CoS.SAN.21b [REP3-028] yn cyfeirio at yr angen posibl am allu neu adnodd tynnu ychwanegol o ganlyniad i'r risg ychwanegol o brosiectau cronol ym Môr Iwerddon. Os bydd y mater hwn heb ei ddatrys o hyd erbyn Dyddiad Cau 5, ymhelaethwch ar y pwynt gan esbonio pa ymrwymiad a geisir gan yr Ymgeisydd a pham.

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
2.16	Sŵn a Dirgryniad	
Q2.16.1	Mr a Mrs Hussey	<p>Mr a Mrs Hussey</p> <p>Yng Nghwestiynau Ysgrifenedig 1 yr Awdurdod Archwilio (ExQ1) ([PD-013], C1.16.3), gofynnwyd i Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wneud sylwadau ar bryderon a godoch ynglŷn ag asesu a monitro sŵn [REP1-086] ac ymateb yr Ymgeisydd [REP2-078]. Aeth y Cyngorau i'r afael â'r materion yn eu Hymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf ([REP3-078], tudalen 50).</p> <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n cytuno â'u safbwynt? • Os na, esboniwch pam neu croesgyfeiriwch at ble yr ystyriwch eich bod wedi ymdrin â'r materion mewn cyflwyniadau blaenorol i'r Archwiliad.
Q2.16.2	Mr & Mrs Hussey Unrhyw APau neu IPau	<p>Nodyn Egluro Sŵn Adeiladu a Dirgryniad</p> <p>Naill ai mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar Ddyddiad Cau 5 neu ar Ddyddiad Cau 6 pan fydd yr Ymgeisydd wedi cyflwyno ei fersiynau wedi'u diweddarau o Bennod Sŵn a Dirgryniad yr ES [APP-072] a'r adroddiad technegol sŵn a dirgryniad Adeiladu [APP-179] ar y Dyddiad Cau 5, gyda'r rhesymeg dros eich safbwynt, rhwch wybod a ydych yn cytuno â rhagdybiaethau/methodoleg, dadansoddiad a chasgliadau'r Ymgeisydd yn ei nodyn egluro sŵn a dirgryniad Adeiladu [REP4-045] o ran sut y gallai'r ffactorau hynny effeithio arnoch chi?</p>
Q2.16.3	DCC CCBC	<p>Asesu a monitro sŵn</p> <p>Yn dilyn eich Ymateb i'r Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf ([REP3-078], C1.16.3), ymhlith pethau eraill, gwrthbrofodd Partïon â Buddiant ymateb yr Ymgeisydd [REP2-078] i'w pryderon cychwynnol ynglŷn ag asesu a monitro sŵn [REP1-086]. O ystyried cyflwyniad y Partïon â Buddiant [REP3-110] ac ymateb yr Ymgeisydd [REP4-056], gan roi rhesymau dros eich casgliadau, a ydych chi'n rhannu unrhyw rai o bryderon parhaus y cyntaf?</p>
Q2.16.4	DCC CCBC	<p>Nodyn Egluro Sŵn Adeiladu a Dirgryniad</p> <p>Naill ai mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar Ddyddiad Cau 5 neu ar Ddyddiad Cau 6 pan fydd yr Ymgeisydd wedi cyflwyno ei fersiynau wedi'u diweddarau o Bennod Sŵn a Dirgryniad yr ES [APP-072] a'r adroddiad technegol sŵn a dirgryniad Adeiladu [APP-179] ar y Dyddiad Cau 5, gyda'r rhesymeg dros eich safbwynt, rhwch wybod a ydych yn cytuno â rhagdybiaethau/methodoleg, dadansoddiad a chasgliadau'r Ymgeisydd yn ei nodyn egluro sŵn a dirgryniad Adeiladu [REP4-045].</p>

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q2.16.5	Yr Ymgeisydd	<p>Nodyn Egluro Sŵn Adeiladu a Dirgryniad</p> <p>A allwch chi fynd i'r afael â'r ymholiadau canlynol sy'n deillio o'ch Nodyn Egluro ynghylch Sŵn Adeiladu a Dirgryniad [REP4-045]:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mewn perthynas â Thechnegau Heb Ffos, mae amwysedd amlwg yn Nhabl 1 - 1 ohonynt. Mae'r golofn ganol yn dweud bod yr asesiad yn rhagdybio gweithio gyda'r nos ym mhob lleoliad heb ffos, a fyddai'n cyd-fynd â Gofyniad 14(2)(a) y dDCO [REP4-005]. Fodd bynnag, mae'r drydedd golofn yn cyfeirio at waith gyda'r nos a dybiwyd yn Tiwedd a Gwyrch Wood gyda gwaith mewn lleoliadau eraill yn unol â Gofyniad 14. Eglurwch y gwahaniaeth yn y tybiaethau model sŵn Adeiladu a ddefnyddiwyd yn yr asesiad ES a'r adolygiad dilynol. 2. Fel y cyfeirir ato yn Nhabl 1 - 2, sut y byddai cynnwys y byndiau uwchbridd arfaethedig ar hyd ffin Terfynau Gorchymyn Coridor Ceblau ar y Tir yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei sicrhau gan y dDCO [REP4-005]? 3. Beth yw ystyr 'unrhyw gyfnod estynedig' a 'tymor byr o hyd' ym mharagraff 1.2.4.6? Diffiniwch/meintolwch y termau hynny a chynghorwch sut y byddent yn cael eu gorfodi.
Q2.16.6	Yr Ymgeisydd	<p>Oriau gwaith adeiladu</p> <p>Pe byddai'n ofynnol i'r Datblygiad Arfaethedig gadw at yr oriau gwaith hynny a sicrheir yn R15 DCO AyM (0700-1900 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 0700-1300 ar ddydd Sadwrn), a ydych chi'n credu y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y rhaglen adeiladu neu hyfywedd ariannol y Datblygiad Arfaethedig? Os felly, esboniwch pam yr ydych yn credu hynny.</p>
Q2.16.7	Yr Ymgeisydd	<p>Cyfnod symud</p> <p>Mae'r cyfnod cynnull arfaethedig o hyd at awr cyn ac ar ôl oriau gwaith craidd yn cael ei ganiatáu a'i ddiffinio gan y CoCP Amlinellol [REP2-038]. Er y nodir y byddai Gofyniad 9 y dDCO [REP4-005] yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r CoCP cymeradwy, heb ragfarn, a allwch ddarparu geiriad ar gyfer diwygio'r dDCO a fyddai'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffinio'r term 'cyfnod cynnull' o fewn y dDCO a'i reoli yn rhinwedd Gofyniad 14; • Adlewyrchu'n gywir rôl yr awdurdod cynllunio perthnasol mewn perthynas â Gofyniad 14(3). Ar hyn o bryd mae'n cynnwys y geiriau 'rhaid cytuno arno gan' tra mae'n ymddangos mai dim ond o leiaf 48 awr ymlaen llaw y mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd ei hysbysu am waith yn amodol ar Ofyniad 14(3);

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • Mewn perthynas â Gofyniad 14(4), pennu cyfnod o amser y mae'n rhaid i'r ymgwymerwr hysbysu'r awdurdod cynllunio perthnasol ymlaen llaw o'r gwaith dan sylw; a • Darparu ymrwymiad i'r Swyddog Cyswllt Cyfathrebu roi rhybudd ymlaen llaw i drigolion cyfagos o waith yn amodol ar Ofynion 14(3) a (4). Dylai'r geiriad drafft nodi'r cyfnod rhybudd ymlaen llaw a phwy y mae'n rhaid ei hysbysu.
Q2.16.8	Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach	Michael & Sally Leach Lle mae'n ymdrin â sŵn a dirgryniad, a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Richard Fearnall ar ran Michael a Sally Leach ([REP4-077], REP3-113.4 & REP3 -113.7)?
Q2.16.9	Richard Fearnall ar ran Mr a Mrs JT Owen	Mr & Mrs JT Owen Lle mae'n ymdrin â sŵn a dirgryniad, a oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at eich cyflwyniadau cynharach mewn perthynas ag Ymateb yr Ymgeisydd i Ymatebion ExQ1 Richard Fearnall ar ran Mr a Mrs Owen ([REP4-078], REP3-114.7)?
2.17	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol Alltraeth	
Q2.17.1	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Mae paragraff 2.8.90 NPS EN-3 yn nodi, yn rhan o'r Pecyn Gwelliannau Amgylcheddol Ynni Gwynt Alltraeth a amlinellwyd yn Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain, bod y llywodraeth wedi ymrwymo i sefydlu Safonau Amgylcheddol Ynni Gwynt Alltraeth. A allwch chi grynhoi sut gallai mesurau a ymgorfforwyd yn y Datblygiad Arfaethedig (i osgoi, lleihau a lliniaru) lywio'r safonau amgylcheddol ynni gwynt alltraeth?
Q2.17.2	Yr Ymgeisydd	Cyffredinol Yn dilyn eich ymateb i Bwyntiau Gweithredu Gwrandawriad mis Hydref cyf HAP_ISH4_10 [REP4-036] (mewn perthynas â pharagraff 2.8.221 o'r NPS EN-3) a allwch: <ul style="list-style-type: none"> i) ar gyfer yr MMO (2014) Adolygiad o ddata amgylcheddol sy'n gysylltiedig â monitro ôl-caniatâd amodau trwydded ffermydd gwynt alltraeth cyflwyno copi i'r archwiliad o'r adolygiad, yn ogystal â chrynodeb yn enwi'r prosiectau ffermydd gwynt alltraeth, eu lleoliad a'u cyfres maint yr ardal, a blwyddyn gweithredu.

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		ii) ar gyfer y Gyfnewidfa Data Morol a gedwir gan Ystâd y Goron, a allwch chi restru'r prosiectau Ffermydd Gwynt Alltraeth sy'n agos at OWF Mona arfaethedig a chrynhof'r pynciau monitro gwynt alltraeth sy'n llywio asesiadau effaith.
Q2.17.3	Yr Ymgeisydd	<p>Cyffredinol</p> <p>Lle rydych yn sôn yn eich ymateb i Bwyntiau Gweithredu Gwrandawriad mis Hydref cyf HAP_ISH4_10 [REP4-036] nad oes cynsail i fonitro'r holl dderbynyddion a'r effeithiau posibl, mae'r Awdurdod Archwilio yn nodi bod y dull o fonitro ecolegol gwynt alltraeth yn wahanol yn NPS 2024 presennol EN-3 i hynny o'i gymharu â'i ragflaenydd NPS 2011 EN-3. Nododd NPS EN-3 blaenorol 2011 fod '<i>monitro ecolegol yn debygol o fod yn briodol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu i nodi'r effaith wirioneddol fel y gellir lliniaru effeithiau andwyol, lle bo'n briodol, ac i alluogi cyhoeddi rhagor o wybodaeth ddefnyddiol i brosiectau yn y dyfodol</i>' [paragraff 2.6.71]. Roedd y geiriad hefyd yn wahanol yn NPS EN-3 drafft Mawrth 2023 [paragraff 3.8.236].</p> <p>A allwch egluro sut y byddech yn bodloni NPS EN-3 presennol 2024 a rhaid i'r datganiadau 'ddatblygu rhaglen fonitro ecolegol i fonitro effeithiau yn ystod y cyfnodau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredu er mwyn nodi'r effeithiau gwirioneddol a achosir gan y prosiect a'u cymharu ag yr hyn a ragfyngwyd yn yr AEA/HRA' [paragraff 2.8.221] a 'pe bai'r effeithiau'n fwy na'r rhai a ragwelwyd, efallai y bydd angen gweithredu proses reoli ymaddasol a bod angen mesurau lliniaru ychwanegol, er mwyn sicrhau bod yr effeithiau, cyn belled â phosibl, yn cael eu dwyn yn ôl o fewn yr ystod o'r rhai a ragwelwyd' [paragraff 2.8.222]</p>
Benthig		
Q2.17.4	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Alltraeth</p> <p>A allwch chi gynghori pam mae effaith cyflwyno strwythurau artiffisial yn cynnwys y geiriad a <i>chytrefu strwythurau caled</i> yn Nhabl 11.8 ym Mhennod 11 (Cyfrol 2) Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Alltraeth [APP-063]? Nid yw'r geiriad ychwanegol hwn wedi'i gynnwys yn yr effaith a amlygwyd yn Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig [APP-054].</p> <p>A allwch chi hefyd wirio'r effaith <i>newid cynefinoedd gwely'r môr sy'n deillio o effeithiau prosesau ffisegol</i> â geiriad yr effaith yn Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig [APP-054].</p>
Q2.17.5	Yr Ymgeisydd CNC (C)	Dyfnder dŵr

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	JNCC	<p>Mae rhif cyfeirnod 8 yn yr Atodlen Lliniaru a Monitro [REP4-013] yn nodi os bydd dyfnder dŵr yn lleihau mwy na 5% y byddai cymeradwyaeth ysgrifenedig yn cael ei cheisio gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA).</p> <p>A allwch chi grynhoi beth fyddai'r ymagwedd at asesu effeithiau ar ecoleg islanw a rhynglanw fenthig, gan gynnwys unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol gan Gyrff Cadwraeth Natur Statudol os bydd dyfnder dŵr yn lleihau mwy na 5%?</p>
Q2.17.6	Yr Ymgeisydd	<p>Agosrwydd i'r gwaith</p> <p>Mae rhif cyfeirnod 10 yr Atodlen Lliniaru a Monitro [REP4-013] yn nodi y byddai deunydd sy'n deillio o ddrilio a/neu glirio tonnau tywod yn cael ei ddyddodi'n agos i'r gwaith.</p> <p>A allwch chi egluro beth a olygir wrth 'yn agos i'r gwaith' a pha bamedrau a chyfyngiadau pellter a ystyriwyd o dan y senario dylunio mwyaf? Er enghraifft, a allai clirio tonnau tywod ar Constable Bank arwain at ddyddodi deunydd sy'n deillio ohono o fewn Constable Bank?</p>
Q2.17.7	Yr Ymgeisydd	<p>Cynefin clai gyda phidogau – Cam datgomisiynu</p> <p>A allwch chi egluro p'un a fyddai rhif cyfeirnod 12 yr Atodlen Lliniaru a Monitro [REP4-013] yn cynnwys amddiffyn y cynefin clai gyda phidogau yn ystod y cam datgomisiynu.</p>
Q2.17.8	Yr Ymgeisydd	<p>Monitro</p> <p>A allwch chi gadarnhau'r cyfraddau monitro a'r rhychwant amser mewn perthynas â monitro ceblau a statws claddu (rhif cyfeirnod 100 yr Atodlen Lliniaru a Monitro [REP4-013])?</p>
Q2.17.9	CNC (C) JNCC	<p>Mesurau lliniaru a monitro</p> <p>A allwch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon ar y mesurau lliniaru ecoleg islanw a rhynglanw fenthig a gynigir gan yr Ymgeisydd, a chrynhai'r rhesymau os ydych yn anghytuno â'r datganiad "<i>ni ystyrir bod angen monitro ecoleg islanw a rhynglanw fenthig i brofi'r rhagfynegiadau a wnaed yn yr asesiad o effeithiau</i>".</p>
Q2.17.10	Yr Ymgeisydd	<p>Amddiffyn ceblau – Cam Datgomisiynu</p> <p>A allwch chi egluro p'un a fyddai mesurau amddiffyn ceblau'n cael eu dileu o Nodweddion Ecolegol Pwysig cynefin islanw, ACA y Fenai a Bae Conwy, a Nodweddion Ecolegol Pwysig cynefin rhynglanw yn ystod y cam datgomisiynu ac, os felly, a yw'r ymrwymiad i ddileu wedi cael ei sicrhau yn y dDCO?</p>
Q2.17.11	Yr Ymgeisydd	<p>Cymunedau cwiliau môr a megaffawna tyrchol</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>A all yr Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) gan ddefnyddio hyd a lled gofodol effaith (a nodwyd gan y JNCC yn ei ymateb i ExQ1 [REP3-084]), gyfrifo canran yr effaith a chynghori ar faint yr effaith, gan gynnwys arwyddocâd effeithiau; ii) gan ddefnyddio Ardal Arâe Mona, gyfrifo canran yr effaith a chynghori ar faint yr effaith, gan gynnwys arwyddocâd effeithiau; a iii) chynnal asesiad atodol i fynd i'r afael ag ymateb y JNCC i ExQ1 [REP3-084] gan ddefnyddio'r sensitifrwydd a restrir gan yr Aseiad o Sensitifrwydd yn Seiliedig ar Dystiolaeth Forol (MarESA).
Mamaliaid Môr		
Q2.17.12	Yr Ymgeisydd JNCC CNC (C)	<p>Clirio Ordnans Heb Ffrwydro (UXO)</p> <p>Er mwyn lliniaru tebygolrwydd posibl anaf yn sgil clirio UXO, mae mesurau allweddol y Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys hierarchaeth liniaru UXO fesul cam (osgoi, ffrwydriad isel, ffrwydriad uchel), Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr (MMMP) Amlinellol [APP-207], Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr Amlinellol [APP-202] ac amodau 20 a 21 (atodlen 14) y drwydded forol dybiedig [REP2-004]. A allwch chi grynhoi pa ddata, asesiadau a mesurau ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer cais ar wahân am drwydded forol (i hwyluso ffrwydriadau clirio uchel) a'r amserlen ddisgwyliedig sy'n ofynnol ar gyfer cais ar wahân am drwydded forol a phenderfyniad arno.</p>
Q2.17.13	Yr Ymgeisydd	<p>Atodlen Lliniaru a Monitro</p> <p>Mae rhif cyfeirnod 35 yr Atodlen Lliniaru a Monitro [REP4-013] yn ymwneud â Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr (UWSMS) sy'n cynnwys ystyried Systemau Lleihau Sŵn (NAS) yn rhan o opsiynau lliniaru. A allwch chi egluro'r datganiad<i>a disgwylir iddi gael ei sicrhau yn y drwydded forol ar wahân gan Cyfoeth Naturiol Cymru</i> (sy'n ymddangos fel y modd o sicrhau'r ymrwymiad). Gan y byddai trwydded forol ar wahân Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr asedau trosglwyddo, a allwch chi gadarnhau pa fesur a fyddai ar waith ar gyfer ardal yr Arâe?</p>
Q2.17.14	JNCC Yr Ymgeisydd	<p>Derbynyddion mamaliaid môr</p> <p>A allwch chi roi diweddariad ynglŷn â derbynyddion mamaliaid môr (cyfeirnod JNCC.MM.10 yn y SoCG gyda'r JNCC [REP1-028]) a chrynhai unrhyw brif bwyntiau anghytundeb sy'n weddill.</p>
Q2.17.15	JNCC Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau ar famaliaid môr o ganlyniad i osod seilbyst (y prosiect ar ei ben ei hun ac ar y cyd)</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A allwch chi roi diweddariad ynglŷn ag effeithiau ar famaliaid môr o ganlyniad i osod seilbyst (cyfeirnod JNCC.MM.15 a JNCC.MM.18 yn y SoCG gyda'r JNCC [REP1-028]) a chrynhoi unrhyw brif bwyntiau anghytundeb sy'n weddill.
Q2.17.16	CNC (C) JNCC	Mesurau lliniaru a monitro A allwch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon ar y mesurau lliniaru mamaliaid môr a gynigir gan yr Ymgeisydd, a chrynhoi'r rhesymau os ydych yn anghytuno â'r datganiad ym Mhennod 4 (Cyfrol 2) y Datganiad Amgylcheddol: Mamaliaid Môr [APP-056] paragraffau 4.9.10.1 a 4.12.1.1, sef " <i>ni ystyrir bod angen monitro mamaliaid môr i brofi'r rhagfynegiadau a wnaed yn yr asesiad o effeithiau</i> ".
Adareg		
Q2.17.17	Yr Ymgeisydd	Tabl 5.139: Crynodeb o effeithiau, mesurau lliniaru a monitro amgylcheddol posibl A allwch chi gynghori pam nad yw'r colofnau cam O a D yn Nhabl 5.139: Crynodeb o effeithiau, mesurau lliniaru a monitro amgylcheddol [REP4-007] posibl yn cyd-fynd ag arwyddocâd yr effaith ar gyfer effeithiau anuniongyrchol sŵn tanddwr ar rywogaethau ysglyfaeth? Er enghraifft, rhoddir tic yng ngholofn O, ond nid yw'r golofn arwyddocâd yr effaith yn cyfeirio at O.
Q2.17.18	Yr Ymgeisydd	Crynodebiadau gwaddodion crog O ran effaith colli/tarfu ar gynefin dros dro a chrynodebiadau uwch o waddodion crog yn ystod datgomisiynu/dileu, mae'r asesiad wedi dod i gasgliad o ddim effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion. A allwch chi egluro pa mor hir y cyfrifwyd y byddai'n cymryd i grynodiadau gwaddodion crog sefydlogi ac arwain at ddim effaith arwyddocaol ar dderbynyddion?
Q2.17.19	CNC (C) JNCC	Mesurau lliniaru a monitro A allwch chi gadarnhau p'un a ydych yn fodlon ar y mesurau lliniaru adareg alltraeth a gynigir gan yr Ymgeisydd, a chrynhoi'r rhesymau os ydych yn anghytuno â'r datganiad ym Mhennod 4 (Cyfrol 2) y Datganiad Amgylcheddol: Adareg Alltraeth [REP4-007] paragraff 5.7.8.1, sef " <i>ni ystyrir bod angen monitro yn y dyfodol o ystyried lefel y sicrwydd ynglŷn â'r effeithiau posibl</i> ".
2.18 Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir		
Q2.18.1	Yr Ymgeisydd	Effeithiau yn gysylltiedig â llygredd a achosir gan halogyddion/gollyngiadau damweiniol A allwch chi egluro p'un a yw effeithiau yn gysylltiedig â llygredd a achosir gan halogyddion/gollyngiadau damweiniol wedi cael eu hepgor neu eu hasesu. Mae Pennod 4 (Cyfrol 3) y

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Datganiad Amgylcheddol: Adareg ar y tir a rhynglanw [APP-067], paragraff 4.1.13.1.1 (y pwynt bwled cyntaf a'r ail bwynt bwled) yn cyfeirio at Dabl 4.41 a Thabl 4.42 a llygredd a achosir gan halogyddion/gollyngiadau damweiniol, ond mae Tabl 4.9: Effeithiau a hepgorwyd o'r asesiad ar gyfer adareg ar y tir a rhynglanw yn nodi fel arall.
Q2.182	Yr Ymgeisydd	Effeithiau Haen 2 A allwch chi egluro pam na amlygwyd unrhyw effeithiau Haen 2 ym Mhennod 3 (Cyfrol 3) y Datganiad Amgylcheddol: Ecoleg Ar y Tir [APP-066] yn ei Thabl 3.35. Crynodeb o effeithiau, mesurau lliniaru a monitro amgylcheddol cronol posibl.
Q2.183	Yr Ymgeisydd	Arolwg coed ac asesiad o'r effaith ar goedyddiaeth A allwch chi gadarnhau lleoliad, math o gynefin a maint (mewn m ²) yr ardaloedd arolygu yn ei arolwg coed ac asesiad o'r effaith ar goedyddiaeth.
Q2.184	Yr Ymgeisydd	Gorchymyn Cadw Coed A allwch chi gadarnhau p'un a fyddai unrhyw goed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed yn cael eu symud ymaith, ac a oes unrhyw anghysondebau o hyd rhwng data lleoliad TPO a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a lleoliadau ffisegol y coed a fapiwyd gan yr Ymgeisydd.
Q2.185	Yr Ymgeisydd	Ardal cael gwared ar goed A allwch chi gadarnhau faint o'r ardal cael gwared ar goed 1,620m ² (yn y llain coetir ynn) sydd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig a faint sy'n berthnasol i gael gwared ar glefyd coed ynn (mewn m ²).
Q2.186	Yr Ymgeisydd	Plannu coetir A allwch chi gynghori sut y bydd cynnydd mewn ardal plannu coetir o 60,650m ² wrth yr Is-orsaf Ar y Tir yn cael ei sicrhau yn y dDCO.
Q2.187	Yr Ymgeisydd	Dwysedd plannu Yn ei sylw ysgrifenedig [REP1-052], nododd Llywodraeth Cymru y dylai'r dwysedd plannu ar gyfer coetir newydd fod yn 2500 o blanhigion fesul hectar. A allwch chi gadarnhau'r dwysedd plannu ar gyfer coetir newydd a sut byddai'n cael ei sicrhau yn y dDCO.
Q2.188	Yr Ymgeisydd	Gwrychoedd Pwysig

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Mae'r Crynodeb o Effeithiau ar Gynefinoedd Pwysig lawn [REP3-072] yn nodi y byddai 550m o wrychoedd yn cael eu colli ac y byddai effaith dros dro ar 7 km o wrychoedd. O'r gwerthoedd hyn, a allwch chi gadarnhau faint ohonynt fyddai'n wrychoedd pwysig?
Q2.18.9	Yr Ymgeisydd	<p>Cynefinoedd a Rhywogaethau</p> <p>A allwch chi egluro pam, yn ystod y cyfnod gweithredu, fod adareg ar y tir a rhynglanwol yn nodi effeithiau sy'n gysylltiedig â cholli cynefinoedd dros dro a pharhaol, a darnio cynefinoedd ac ynysu rhywogaethau, ond nad yw effeithiau o'r fath wedi'u nodi ar gyfer ecoleg?</p>
2.19 Seilwaith a Gweithgareddau Alltraeth Eraill		
Q2.19.1	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau deffro: gwrthbrofi</p> <p>Ymateb yn llawn i gyflwyniadau'r IPau Ørsted ar effeithiau deffro yn Ddyddiad Cau 4 [REP4-126] [REP4-128] [REP4-129] [REP4-130] [REP4-131].</p> <p>Fel rhan o'ch ymateb:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi sylwadau ar y ffigurau a ddyfynnwyd gan yr IPau Ørsted o ran prosiect yn unig ac effeithiau cronol ar Gynhyrchu Ynni Blyneddol (AEP) ar gyfer chwe phrosiect Ørsted a'u perthnasedd; • Er gwaethaf eich safbwynt nad oes angen asesiad o'r fath yn yr achos hwn, rhowch sylwadau ar honiad yr IPau Ørsted nad oes unrhyw rwystrau ymarferol sylfaenol i gynnal asesiad colli sgil ystyrion, er bod un yn cynhyrchu ystod o ganlyniadau tebygol yn seiliedig ar ragdybiaethau addysgedig; a • Rhoi sylwadau ar y dulliau posibl o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i lywio asesiad o'r fath.
Q2.19.2	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau deffro: NPS EN-3 para 2.8.197</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn trafodaeth yn ISH4, a heb ailadrodd safbwyntiau sydd eisoes wedi'u nodi'n ysgrifenedig, darparwch eich dehongliad ar sail tystiolaeth o'r term "agos at" yng nghyd-destun NPS EN-3 para 2.8.197. • Er gwaethaf eich cyflwyniadau ISH4 ynghylch y dehongliad o'r term "trwydded" yn NPS EN-3 para 2.8.197, yng ngoleuni cyflwyniadau D4 o'r IPau Ørsted a ydych yn cadw eich safbwynt nad oes gan y Datblygiad Arfaethedig y potensial i effeithio gweithgaredd gwynt alltraeth presennol ym Môr Iwerddon?

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q2.19.3	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau deffro: NPS EN-3 para 2.8.200 a 2.8.344</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yng nghyd-destun NPS EN-3 paragraffau 2.8.200 a 2.8.344, eglurwch sut mae'r Ymgeisydd wedi gweithio gyda (ac yn parhau i weithio gyda) gweithredwyr OWFs presennol ym Môr Iwerddon i leihau effeithiau negyddol ar gynnyrch ynni ers y pryderon hyn y codwyd am y tro cyntaf yn y cam cyn ymgeisio? Nid oes angen ailadrodd cyflwyniadau blaenorol ar ddewis safle. • Darparwch ddiweddariad ar unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r IPau Ørsted ar y mater hwn ers ISH4 ac unrhyw gynnydd a wnaed.
Q2.19.4	IPau Ørsted	<p>Effeithiau deffro: NPS EN-3 para 2.8.347</p> <p>Mae paragraff 2.21 eich [REP4-129] yn nodi "rydym o'r farn bod potensial i lefel yr effaith a ragwelir effeithio ar benderfyniadau hirdymor ar hyfywedd datblygiadau'r IPau Ørsted yn y dyfodol".</p> <ul style="list-style-type: none"> • Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ai eich achos chi yw bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o effeithio ar hyfywedd un neu fwy o'ch prosiectau presennol yn y dyfodol? • Os felly, rhowch esboniad pellach ynghylch sut mae gostyngiad mewn cynhyrchiant ynni blynyddol ar y lefel a ragfynegydd gan eich modelu rhagarweiniol yn debygol o effeithio'n andwyol ar hyfywedd yr OWF(s) yn y dyfodol.
Q2.19.5	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau deffro: Rheoliadau AEA</p> <p>A ydych yn derbyn, fel mater o egwyddor, y gall colled o ganlyniad fod yn berthnasol i'r Rheoliadau AEA o ran asesu effaith prosiect ar yr hinsawdd (megis cyfraniad at leihad mewn cynhyrchu tanwydd ffosil o fewn grid y DU yn ystod y cyfnod gweithredol? Eglurwch eich ymateb.</p>
Q2.19.6	IPau Ørsted	<p>Effeithiau deffro: cyflwyno modelu</p> <p>Dylid cyflwyno unrhyw fodelu neu ddadansoddiad, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 2.31 eich [REP4-129], yn llawn yn D5 fan bellaf er mwyn galluogi archwilio yn ISH6, os oes angen. O ystyried yr amserlenni byr rhwng D5 ac ISH6, anogir yr IPau Ørsted i ystyried darparu golwg gynnar ar y dadansoddiad hwn i'r Ymgeisydd gyda'r bwriad o wneud y defnydd mwyaf cynhyrchiol o amser yn ISH6.</p>
Q2.19.7	IPau Ørsted	<p>Effeithiau deffro: y ffordd ymlaen</p> <p>Pa ganlyniad yr ydych yn ei geisio o'r Archwiliad hwn mewn perthynas ag effeithiau deffro? A allai fod unrhyw rôl i Ddarpariaethau Amddiffynnol neu gytundeb ochr fasnachol i warchod eich buddiannau?</p>
Q2.19.8	Yr Ymgeisydd	<p>Datganiad Tir Cyffredin</p>

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	â IPau Ørsted	Cynhyrchwch Ddatganiad Tir Cyffredin ynglŷn â'r holl faterion sy'n berthnasol i Bartïon â Buddiant Ørsted. I'w gyflwyno erbyn Dyddiad Cau 5, gyda fersiwn derfynol erbyn Dyddiad Cau 7. Ychwanegwch Bartïon â Buddiant Ørsted at y Datganiad Cyffredinedd.
Q2.19.9	Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited	Effeithiau deffro: profiad ar Awel y Môr Mae'r potensial ar gyfer effeithiau deffro o'r fferm i'r fferm yn fater cymharol newydd ar gyfer archwiliadau DCO. A oes unrhyw brofiad yn dod i'r amlwg o brosiect OWF Awel y Môr o gynnal asesiad o effeithiau deffro a nodi unrhyw fesurau lliniaru perthnasol i fodloni Gofyniad 25 Gorchymyn Awel y Môr a allai gynorthwyo'r Archwiliad hwn, er enghraifft mewn perthynas â methodoleg asesu, dulliau modelu a rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif rhwng prosiectau?
Q2.19.10	Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited Yr Ymgeisydd	Rhyngweithio alltraeth gyda Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (OWF) Mae'r Traciwr Cynnydd Arholiadau diweddaraf [REP4-089] yn nodi y disgwylir i'r trafodaethau rhwng yr Ymgeisydd ac Awel y Môr OWF Ltd ddod i ben cyn diwedd yr Archwiliad hwn. Yn benodol mewn perthynas â chroesi cytundeb OWF Awel y Môr ar gyfer ardal brydlesu ger coridor cebl allforio alltraeth Mona: <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cynllun yn dangos y rhyngweithiad rhwng coridor cebl allforio alltraeth Mona a chytundeb OWF Awel y Môr ar gyfer ardal brydles; a • Eglurwch beth fydd y cyfrwng tebygol ar gyfer y cytundeb hwn a pha mor agos ydyw at ei gwblhau.
2.20 Y Morlun ac Adnoddau Gweledol		
Q2.20.1	Yr Ymgeisydd	Delweddau Wireline Nid yw'n ymddangos bod y delweddu llinell weiren a ddarperir ar Dudalen 15 PDF o [REP3-046] yn dangos VP28-Penmon Point. A all yr Ymgeisydd gadarnhau pa olygfa mae'r ddelwedd hon yn ei dangos, a pha ddelwedd sy'n dangos Penmon Point?
2.21 Materion Economaidd-Gymdeithasol		
Q2.21.1	Llywodraeth Cymru	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Mae'r Ymgeisydd wedi ymateb yn ffafriol [REP4-061] i awgrym Llywodraeth Cymru 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth nad yw'n gyfreithiol' i amlinellu meysydd cydweithio allweddol ar feysydd fel buddion cymunedol, datblygu sgiliau, cadwyni cyflenwi, porthladdoedd a materion yn ymwneud â'r Gymraeg. A

ExQ2: 19 Tachwedd 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024**

ExQ2	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		fydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei gyflwyno i'r Archwiliad? Os felly, pryd?
Q221.2	Siambwr Forgludiant y Deyrnas Unedig	Effeithiau economaidd-gymdeithasol ar y sector morgludiant Os yw'r pwyntiau yn Nhabl 1.6 y Datganiad Tir Cyffredin [REP3-028] yn weddill o hyd, amlinellwch bryderon y Siambwr yn llawn ynglŷn â digonolrwydd: <ul style="list-style-type: none">• ymgynghoriad ynglŷn ag effeithiau economaidd-gymdeithasol ar wasanaethau fferi gynhaliol;• yr asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol ar wasanaethau fferi gynhaliol; a• dadansoddiad o effeithiau ar y sector morgludiant mewn perthynas ag allyriadau. Pa gamau gweithredu a geisir gan yr Ymgeisydd i fynd i'r afael â'r materion hyn?
2.22	Traffig a Thrafnidiaeth	
Nid oes gan yr ExA gwestiynau ar hyn o bryd.		

ExQ2: 19 Tachwedd 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 5: 3 Rhagfyr 2024